



# Polisi Diogelu Disgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle

## Cyflwyniad

Mae Corff Llywodraethol Ysgol Dyffryn Nantlle yn adnabod fod rhaid i'r ysgol, er mwyn cefnogi datblygiad llawn bob disgybl, sicrhau fod pob disgybl yn;

- ddiogel
- iach
- medru mwynhau a llwyddo
- medru gwneud cyfraniad cadarnhaol

Mae'r Polisi Diogelu yn cyfeirio at yr agweddau isod sydd gyda'i gilydd yn hyrwyddo lles plant;

- Amddiffyn Plant
- Iechyd a Diogelwch
- Bwlio
- Cyfle Cyfartal
- Aflonyddu a gwahaniaethu
- Hiliaeth
- Cam ddefnyddio sylweddau a chyffuriau
- Cymorth Cyntaf
- Addysg Rhyw
- Diogelu yn y cwricwlwm
- Diogelwch ar y We
- Lles disgyblion ar brofiad gwaith estynedig
- Diogelwch y safle
- Presenoldeb
- Recriwtio Diogel
- Trochi staff newydd
- Croesawu ymwelwyr
- Ymddygiad a disgyblaeth
- Ymyrraeth gorfforol a ffrwyno
- Defnydd o luniau a fideo
- Canu'r gloch "Whistleblowing"
- Cyfathrebu a rhieni a dysgwyr

## Datganiad Diogelu

Mae Llywodraethwyr a staff Ysgol Dyffryn Nantlle yn llwyr ymroddedig i weithdrefnau Diogelu Plant sy'n gymeradwgan y Bwrdd Diogelu Plant Lleol ac yn unol â Chanllawiau Diogelu Plant Cymru Gyfan 2008.

Mae'r Corff Llywodraethol yn ymateb i'r amcan o ddiogelu plant drwy;

- sicrhau amgylchedd ddysgu diogel i ddisgyblion yr ysgol
- adnabod ac ymateb i bryder am les disgyblion phan fo'r angen ymateb mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill
- datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch cymeriad disgyblion drwy'r cwricwlwm

Ar gyfer cwrdd â'r amcanion yma mae'r Corff Llywodraethol yn derbyn fod angen trefn wedi ei chynllunio ar gyfer;



- Atal pobl anaddas rhag gweithio a phlant
- Hyrwyddo ymarfer diogel a herio ymarfer sâl neu beryglus
- Adnabod ac ymateb i ddigwyddiadau lle mae pryder am les plentyn gan sicrhau diogelwch y plentyn.
- Cyfrannu i weithio partneriaeth effeithiol gydag asiantaethau eraill

Bydd Llywodraethwyr a staff Ysgol Dyffryn Nantlle yn gweithio gydag asiantaethau eraill i gwrdd â'r amcanion uchod.

Yn Ysgol Dyffryn Nantlle mae iechyd a diogelwch pob un disgybl yn flaenoriaeth. Mae rhieni yn gyrru eu disgyblion i'r ysgol gyda'r disgwyliad fod eu plant yn cael eu haddysgu mewn awyrgylch ddiogel. Bydd Llywodraethwyr a staff yr ysgol yn defnyddio ystod o strategaethau a pholisïau i sicrhau hyn.

## 1. Amddiffyn Plant

Mae polisi amddiffyn plant yr ysgol yn ddogfen arwahan i'r polisi hwn.

Person dynodedig Amddiffyn Plant: Mr Gwern ap Rhisiart

Dirprwy dynodedig Amddiffyn Plant: Mr Huw G Evans

Llywodraethwr dynodedig Amddiffyn Plant: Mr Glyn Owen

## 2. Iechyd a Diogelwch

Mae gan yr ysgol bolisi iechyd a diogelwch sydd yn cael ei oruchwylio gan y Corff Llywodraethu a'r Pennaeth. Mae disgwyl i staff adrodd ar unrhyw bryder sydd ganddynt am iechyd a diogelwch, yn dilyn hyn bydd y Pennaeth yn sicrhau ymateb fydd yn lleihau'r risg. Mae'r polisi yn cyfeirio at asesiadau risg tan, gwagio'r adeilad yn ddiogel mewn argyfwng, asesiadau risg yn gyffredinol ynghyd a chamau i ymateb i ddigwyddiadau difrifol.

## 3. Bwlio

Mae gan yr ysgol bolisi gwrth fwlio sydd wedi ei amlinellu mewn dogfen arwahan. Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu yn flynyddol.

Mae'r ysgol yn diffinio bwlio fel:

“Ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, sydd fel arfer yn cael ei ail adrodd dros gyfnod o amser, sy'n fwriadol anafu unigolyn neu grŵp arall yn gorfforol neu'n emosiynol”. Gall gymryd nifer o wahanol ffyrdd e.e.

- *Corfforol*
- *Geiriol*
- *Neilltuedig (sydd yn 'cau allan' y dioddefwr)*
- *Difrod i eiddo/dwyn eiddo*
- *Seibr Fwlio*

Mae ymateb yr ysgol i unrhyw ddigwyddiad o fwlio yn gyson a chadarn. Byddwn yn hysbysu rhieni'r disgybl sydd yn cael ei fwlio ynghyd a rhieni'r disgybl sydd yn bwlio. Byddwn yn annog disgyblion i rannu a staff yr ysgol unrhyw bryderon all godi yn sgil bwlio. Er bod bwlio yn brin yn yr ysgol yr ydym bob amser yn ymateb



yn brydlon drwy ymchwilio, cyfathrebu a gweithredu a hyn bob amser mewn cydweithrediad a rhieni 'r disgyblion. Ni fydd bwlio yn cael ei ddioddef yn Ysgol Dyffryn Nantlle.

#### 4. Cyfle Cyfartal

Mae gan yr ysgol bolisi cadarn sy'n cyfeirio at y pwysigrwydd o greu amgylchiadau ffafriol i bob unigolyn lwyddo oddi fewn i gymdeithas sy'n gofalu am fuddiannau pawb fel ei gilydd.

Rhaid i blant sydd ag anableddau gymryd rhan lawn ym mhob gwers ac fe wneir pob ymdrech i sicrhau hyn. Mae gwybodaeth bellach ym mholisi cyfle cyfartal yr ysgol sydd yn ddogfen arwahan.

#### 5. Aflonyddu a Gwahaniaethu

Mae ymateb yr ysgol i unrhyw ddigwyddiad o aflonyddu a gwahaniaethu wedi ei gynnwys ym mholisi cyfle cyfartal yr ysgol.

Nid yw'r ysgol yn dioddef unrhyw aflonyddu neu wahaniaethu boed hyn gan oedolyn neu blentyn. Mae ymateb yr ysgol wedi ei amlygu yn ein polisi cyfle cyfartal.

#### 6. Cydraddoldeb Hiliol

Ynghyd a pholisi cyfle cyfartal mae gan yr ysgol bolisi cydraddoldeb hiliol. Mae'r Corff Llywodraethu yn deall pwysigrwydd paratoi disgyblion yr ysgol i fyw mewn cymunedau a chymdeithas lle mae amrywiad ethnig. Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol gan rwystro a herio unrhyw hiliaeth. Mae'r cwricwlwm ABaCh ac Astudiaethau Crefyddol yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Mae pob digwyddiad o hiliaeth yn cael ei adrodd i sylw'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol yr ysgol.

#### 7. Cam ddefnyddio Sylweddau a Chyffuriau

Mae'r ysgol a pholisi cam ddefnyddio sylweddau sydd yn gysylltiedig â pholisi ymddygiad yr ysgol. Cynigir cefnogaeth i ddisgyblion sydd yn cam ddefnyddio sylweddau a chyffuriau. Trafodir y mater yma drwy'r cwricwlwm yn rheolaidd. Ceir mwy o fanylion yn ein polisi cam ddefnyddio sylweddau.

#### 8. Cymorth Cyntaf

Mae gan yr ysgol aelodau o staff sydd wedi eu hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

Mae adnoddau cymorth cyntaf wedi eu lleoli ar hyd a lled yr ysgol. Ceir mwy o fanylion am y drefn ym mholisi cymorth cyntaf yr ysgol sydd yn ddogfen arwahan.

#### 9. Disgyblion a chyflyrau meddygol

Nid yw'r ysgol yn fodlon rhoi meddyginiaeth i unrhyw blentyn oni bai fod rhieni'r disgybl wedi gwneud cais ffurfiol i'r ysgol wneud hyn. Y Pennaeth fydd yn ystyried y cais ac mae ganddo'r disgrisiwn i dderbyn neu wrthod y cais yma. Bydd staff gan amlaf yn rhoi meddyginiaeth i ddisgyblion os yw'n rhan o gynllun meddygol y plentyn. Bydd enw'r aelod o staff fydd yn rhoi'r meddyginiaethau yn cael ei nodi yn y cynllun. Ceir mwy o fanylion ym mholisi meddyginiaeth yr ysgol.



## 10. Addysg Rhyw

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg rhyw yn cael ei amlinellu'n gyflawn yn y polisi addysg rhyw.

## 11. Diogelu drwy'r cwricwlwm

Mae cwricwlwm yr ysgol yn ymateb i ddiogelu mewn dwy ffordd. Yn gyntaf mae'r cwricwlwm ABaCh yn rhoi cyfle i drafod ac ymchwilio i faterion megis cyffuriau, rhyw a pherthnasau. Yn ail mae'r cwricwlwm wedi ei gynllunio fel bod materion iechyd a diogelwch yn cael eu trafod ynghyd a dulliau diogel o weithio e.e. mewn gwersi Dylunio a Thechnoleg neu Wyddoniaeth. Mae lefel staffio addas yn cael ei sicrhau ar gyfer yr amgylchiadau ac amgylchedd ddysgu a phan fydd disgyblion yn cael ei haddysgu oddi ar y safle byddwn yn sicrhau fod y gymhareb staff i blentyn yn addas.

Bydd yr ysgol yn gwahodd siaradwyr allanol i gyfoethogi'r hyn a gyflwynir am ddiogelu drwy'r cwricwlwm.

## 12. Diogelwch ar dripiâu addysgol

Yr aelod o staff a chyfrifoldeb am ddiogelwch tripiâu addysgol yw:

Mae pob ymweliad addysgol yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol. Mae cymhareb disgyblion i staff, trefniadau cludiant, gwiriadau CRB darparwyr, cyfleoedd cwricwlaidd addas a ffordd o gysylltu mewn argyfwng i gyd yn cyd fynd ac arweiniad yr Awdurdod. Ceir mwy o fanylion yn ein polisi ymweliadau addysgol.

## 13. Diogelwch ar y We

Mae'r ysgol yn cymryd o ddifrif ei chyfrifoldeb i hybu disgyblion i gadw'n ddiogel ar y we. Mae diogelwch ar y we yn cael ei drafod arwahan yn ein polisi diogelwch ar y we. Dylid annog disgyblion i ddefnyddio'r we yn aml ond bob amser mewn ffordd ddiogel. Ni ddylai disgyblion gael eu gadael ar y we heb oruchwyliaeth. Os bydd cam ddefnydd o'r we gan ddisgybl neu aelod o staff bydd y mater yn cael ei gyfeirio at sylw'r Pennaeth.

## 14. Lles disgyblion ar Brofiad Gwaith Estynedig

Yr aelod o staff a chyfrifoldeb am brofiad gwaith estynedig yw:

Pan fydd disgybl yn cael ei leoli mewn profiad gwaith estynedig bydd yr ysgol yn ymweld yn rheoliad i sicrhau fod ei les yn cael ei ddiogelu. Bydd y disgyblion yn cael eu hannog i rannu unrhyw bryderon. Ceir mwy o fanylion yn ein polisi profiad gwaith.

## 15. Diogelwch Safle

Mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau lleoliad diogel ac oherwydd hyn rhaid i bob unigolyn sydd yn ymweld ar safle ddilyn rheolau'r safle. Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau diogelwch y safle fel a ganlyn:

### *Ymwelwyr*

Mae'n rhaid i bob ymwelydd ymweld â'r dderbynfa lle y bydd gofyn iddynt arwyddo yn ein llyfr ymwelwyr. Wrth arwyddo i mewn byddant yn derbyn bathodyn ymwelydd fel arwydd eu bod wedi arwyddo mewn. Byddant yn cael ei hebrwng i weld yr aelod o staff y maent yn awyddus i'w weld.



### *Ymddygiad Anaddas gan Ymwelydd*

Byddwn yn gofyn i unrhyw ymwelydd sydd yn arddangos ymddygiad anaddas adael y safle.

### *Disgybl yn gadael y safle heb ganiatâd*

Bydd aelod o staff yn chwilio am y disgybl gan geisio ei gael i ddychwelyd i'r ysgol. Byddwn yn cysylltu â rhiant y disgybl i'w hysbysu. Byddwn yn cysylltu â'r Heddlu os na fydd modd dod mewn cysylltiad ar ddisgybl.

## 16. Presenoldeb

Mae disgyblion sydd yn absennol o'r ysgol heb yn wybod i'w rhieni yn rhoi ei hunain mewn risg ac oherwydd hyn mae'r ysgol a pholisi presenoldeb arwahan. Mae'r polisi yma yn ymateb i'r angen i gysylltu â rhiant yn dilyn absenoldeb ynghyd a chamau pellach i leihau triwant gan gynnwys cyfeiriadau i'r Gwasanaeth Lles Addysg. Mae'r polisi yn cynnwys camau positif i annog gwell presenoldeb ynghyd a chyfeirio at y camau cyfreithiol all yr ysgol eu cymryd mewn ymateb i ddiffyg presenoldeb.

## 17. Recriwtio Diogel

Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau'r Awdurdod Lleol a'r recriwtio diogel. Mae'r drefn o recriwtio'n ddiogel wedi eu hamlygu yn y polisi recriwtio diogel.

## 18. Trochi Staff Newydd

Mae pob aelod newydd o staff ac unrhyw berson sydd yn gwirfoddoli yn derbyn hyfforddiant diogelu yn unol â natur y swydd. Bydd disgwyl i bob aelod o staff ddarllen Polisi Diogelu a Pholisi Amddiffyn Plant yn ystod eu diwrnod cyntaf yn yr ysgol. I ddilyn fe fydd cyfres o gwestiynau ar lafar gan aelod o'r uwch dim rheoli i sicrhau fod yr aelod o staff wedi deall cynnwys y ddau bolisi.

## 19. Ymddygiad a Disgyblaeth

Mae ymddygiad a disgyblaeth wedi ei amlygu ym mholisi disgyblaeth yr ysgol. Ynndo amlygir y drefn o wobrwyo ymddygiad da ynghyd a sancsiynau posib ar gyfer ymddygiad annerbyniol.

## 20. Ymyrraeth Gorfforol a Ffrwyno Corfforol

Dim ond staff sydd wedi eu hyfforddi fydd yn ymyrryd yn gorfforol neu'n ffrwyno disgyblion. Mae'r ysgol yn disgwyl i staff wneud pob ymdrech i ddistewi sefyllfa cyn ymyrraeth gorfforol

Ceir mwy o fanylion ym mholisi ymyrraeth gorfforol a ffrwyno'r ysgol

## 21. Tynnu Lluniau a Fideo o Blant

Delir a'r mater yma mewn polisi arwahan sef polisi lluniau a fideo'r ysgol.



## 22. Canu'r Gloch

Os oes gan unrhyw un bryder am ymddygiad neu fwriad unrhyw berson o fewn yr adeilad neu o fewn cyrraedd i blant yr ysgol mae ganddynt ddyletswydd i ymateb i adrodd eu pryderon i aelod o'r uwch dim rheoli. Gall hyn gael ei wneud yn ysgrifenedig neu ar lafar. Gall staff dderbyn y bydd y mater yn cael ei ddelio ag ef yn sensitif gyda'r lefel gywir o gyfrinachedd.

## 23. Cyfathrebu a Rhieni

Wrth i ddisgybl gychwyn yn yr ysgol yr ydym yn gwneud rhieni yn ymwybodol o bolisiau diogelu a champau gweithredu'r ysgol gan gynnwys yr angen i rannu pryderon ag asiantaethau eraill pan fo'r angen. Mae'r disgyblion yn ymwybodol y gallant drafod unrhyw bryderon ac unrhyw aelod o staff yr ysgol. Rhoddir posteri o amgylch yr ysgol i godi ymwybyddiaeth hyn.